OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 325

# Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002

## RHAN III

## RHEDEG SEFYDLIADAU GOFAL IECHYD

### PENNOD 1

### ANSAWDD Y GWASANAETH A DDARPERIR

**Ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir**

**14.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 5(4), rhaid i'r person cofrestredig ddarparu triniaeth ac unrhyw wasanaethau eraill i gleifion yn unol â'r datganiad o ddiben a rhaid iddo sicrhau bod y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir i bob claf—

(a) yn bodloni anghenion unigol y claf; a

(b) yn adlewyrchu tystiolaeth ymchwil a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y cyrff proffesiynol ac arbenigol priodol ynghylch arferion da wrth drin y cyflwr y mae'r claf yn dioddef ohono; ac

(c) yn cael eu darparu (pan fo angen) drwy gyfrwng cyfarpar priodol.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr holl gyfarpar a ddefnyddir yn y y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad—

(a) yn addas at y dibenion y mae i'w ddefnyddio ar eu cyfer; a

(b) yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i fod mewn cyflwr da.

(3) Pan ddefnyddir dyfeisiau meddygol y gellir eu hailddefnyddio mewn sefydliad, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu ar gyfer glanhau, diheintio, archwilio, pacio, sterileiddio, cludo a storio dyfeisiau o'r fath.

(4) Rhaid i'r gweithdrefnau a weithredir yn unol â pharagraff (3) fod yn rhai a fydd yn sicrhau bod dyfeisiau meddygol y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu trafod yn ddiogel ac yn cael eu diheintio'n effeithiol cyn y byddant yn cael eu hailddefnyddio.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau priodol ar gyfer archebu, cofnodi, trin, cadw'n ddiogel, rhoi a gwaredu yn ddiogel y cyffuriau a ddefnyddir yn neu at ddibenion y sefydliad, neu at ddibenion yr asiantaeth.

(6) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i leihau'r risg o amodau heintiedig a gwenwynig ac ymlediad heintiadau rhwng y cleifion a'r staff (gan gynnwys ymarferwyr meddygol â breintiau ymarfer).

(7) Os yw sefydliad yn darparu bwyd ar gyfer cleifion, rhaid i'r darparydd cofrestredig sicrhau—

(a) bod digon ohono yn cael ei ddarparu bob hyn a hyn fel y bo'n briodol;

(b) ei fod yn cael ei baratoi yn briodol, ei fod yn iachus ac yn faethlon; ac

(c) ei fod yn addas ar gyfer anghenion y cleifion;

a bod y fwydlen yn cael ei hamrywio bob hyn a hyn fel y bo'n addas.

### Gofal a lles cleifion

**15.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg yn y fath fodd ag i hybu lles y cleifion a darparu'n briodol ar ei gyfer a rhaid iddo, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, alluogi cleifion i wneud penderfyniadau ynghylch materion sy'n effeithio ar eu gofal a'u lles cyffredinol.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caniateir i'r cleifion reoli eu harian eu hunain, ac eithrio os nad yw claf yn dymuno hynny, neu nad yw'n gymwys i wneud hynny, ac os felly, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod arian y claf yn cael ei gadw a'i gofnodi'n briodol a bod derbynebau yn cael eu rhoi fel y bo'n briodol.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, ganfod a chymryd i ystyriaeth ddymuniadau a theimladau pob un o'r cleifion wrth benderfynu ar y dull o ofalu amdanynt a'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau bod y sefydliad yn cael ei gynnal—

(a) mewn modd sy'n parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion; a

(b) gan roi sylw dyledus i ryw, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, a chefndir diwylliannol ac ieithyddol y cleifion ac unrhyw anabledd sydd ganddynt.

(5) Rhaid i'r darparydd cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig (os oes un) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y sefydliad yn cael ei gynnal ar sail perthynas bersonol a phroffesiynol dda—

(a) rhwng y naill a'r llall; a

(b) rhwng pob un ohonynt a'r cleifion a'r staff.

### Adolygiad o ansawdd y driniaeth a gwasanaethau eraill

**16.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig gyflwyno a chynnal system ar gyfer adolygu bob hyn a hyn fel y bo'n briodol ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig gyflwyno adroddiad i swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag unrhyw adolygiad a gynhelir gan y person cofrestredig at ddibenion paragraff (1) a sicrhau bod copi o'r adroddiad ar gael i'r cleifion.

(3) Rhaid i'r system y cyfeirir ati ym mharagraff (1) ddarparu ar gyfer ymgynghori â chleifion a'u cynrychiolwyr.

### Staffio

**17.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig, o ystyried natur y sefydliad a nifer ac anghenion y cleifion—

(a) sicrhau bod personau â chymwysterau, medrau a phrofiad addas yn gweithio yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad bob amser, a bod y nifer ohonynt yn briodol ar gyfer iechyd a lles y cleifion;

(b) sicrhau na fydd cyflogi unrhyw bersonau dros dro yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad yn atal cleifion rhag cael y gofal di-dor sy'n rhesymol i ddiwallu eu hanghenion.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob person a gyflogir yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad—

(a) yn cael hyfforddiant, goruchwyliaeth a gwerthusiad priodol;

(b) yn cael ei alluogi o bryd i'w gilydd i ennill cymwysterau pellach sy'n briodol i'r gwaith y mae'r person yn ei gyflawni; ac

(c) yn cael disgrifiad swydd sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r person ei hun.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob person a gyflogir yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad ac unrhyw ymarferydd meddygol â breintiau ymarfer yn cael eu gwerthuso yn rheolaidd ac yn briodol a rhaid iddo gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw agwedd—

(a) ar bractis clinigol proffesiynolyn gofal iechyd; neu

(b) ar berfformiad aelod o staff nad yw'n broffesiynolyn gofal iechyd

y cafwyd ei fod yn anfoddhaol.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw bersonau sy'n gweithio yn y sefydliad neu at ddiben y sefydliad, nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y person cofrestredig ac nad yw paragraff (2) yn gymwys iddynt, yn cael eu goruchwylio'n briodol tra bônt yn cyflawni eu swyddogaethau.

### Ffitrwydd y gweithwyr

**18.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig beidio â gwneud y canlynol—

(a) cyflogi person o dan gontract cyflogi i weithio yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad oni bai bod y person hwnnw yn ffit i wneud hynny;

(b) caniatáu i wirfoddolwr weithio yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad oni bai bod y person hwnnw yn ffit i wneud hynny;

(c) caniatáu i unrhyw berson arall (gan gynnwys ymarferydd meddygol sy'n gwneud cais am gael breintiau ymarfer) weithio yn y sefydliad neu ar ei ran mewn swydd lle gallai gael cysylltiadau rheolaidd â chlaf wrth gyflawni ei ddyletswyddau oni bai bod y person hwnnw yn ffit i weithio yn y sefydliad neu ar ei ran.

(2) At ddibenion paragraff (1) nid yw person yn ffit i weithio mewn sefydliad neu at ddibenion sefydliad oni bai—

(a) ei fod yn addas o ran ei onestrwydd a'i gymeriad da ar gyfer y gwaith y mae'r person i'w gyflawni;

(b) bod gan y person y cymwysterau, y medrau a'r profiad angenrheidiol ar gyfer y gwaith hwnnw; ac

(c) bod y person yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol ar gyfer y gwaith hwnnw; ac

(ch) bod gwybodaeth neu, yn ôl fel y digwydd, ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael mewn perthynas â'r person—

(i) ac eithrio os yw paragraff (3) yn gymwys, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 1 i 7 o Atodlen 2;

(ii) os yw paragraff (3) yn gymwys, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 1 a 3 i 8 o Atodlen 2.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os nad oes unrhyw dystysgrif neu wybodaeth am unrhyw faterion a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 2 ar gael am nad yw unrhyw un o ddarpariaethau Deddf yr Heddlu 1997(**1**) wedi'i dwyn i rym.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

(a) bod unrhyw gyflogaeth sy'n cael ei chynnig i berson a ddisgrifir ym mharagraff (1), neu drefniant arall ynghylch gweithio yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad a wneir

(**1**) *Gweler* y troednodyn i reoliad 9(4).

gyda'r person hwnnw neu mewn perthynas ag ef, yn amodol ar gydymffurfio â pharagraff (2)(ch) mewn perthynas â'r person hwnnw; a

(b) oni bai bod paragraff (5) yn gymwys, na fydd unrhyw berson o'r fath yn dechrau gweithio yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad tan y cydymffurfir â pharagraff (2)(ch) mewn perthynas â'r person hwnnw.

(5) Os bydd yr amodau canlynol yn gymwys, gall y person cofrestredig ganiatáu i berson heblaw proffesiynolyn gofal iechyd i ddechrau gweithio yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad er gwaethaf paragraff (4)(b)—

(a) bod y person cofrestredig wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau gwybodaeth lawn ynghylch pob mater a restrir yn Atodlen 2 ynglŷn â'r person hwnnw, ond bod yr ymholiadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a restrir ym mharagraffau 3 i 6 o Atodlen 2 yn anghyflawn;

(b) bod gwybodaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â'r person hwnnw wedi'i sicrhau ynghylch—

(i) y mater a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 2; a

(ii) oni bai bod paragraff (3) yn gymwys, y mater a bennir ym mharagraff 2 o'r Atodlen honno; neu

(iii) os yw paragraff (3) yn gymwys, y mater a bennir ym mharagraff 8 o'r Atodlen honno;

(c) bod yr amgylchiadau yn eithriadol ym marn rhesymol y person cofrestredig; ac

(ch) nes y bydd yn cael unrhyw wybodaeth sydd heb ddod i law a'i fod yn fodlon arni, bod y person cofrestredig yn sicrhau bod y person yn cael ei oruchwylio'n briodol tra bydd yn cyflawni ei ddyletswyddau.

(6) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad ac nad yw'n dod o dan baragraff (1) yn cael ei oruchwylio'n briodol bob tro y mae mewn cysylltiad â chleifion.

**Canllawiau ar gyfer proffesiynolion gofal iechyd**

**19.** Rhaid i'r person cofrestredig drefnu bod unrhyw god ar foeseg neu arferion proffesiynol sydd wedi'i baratoi gan gorff sy'n gyfrifol am reoleiddio aelodau o broffesiwn gofal iechyd ar gael yn y sefydliad i aelodau'r proffesiwn gofal iechyd o dan sylw.

**Cofnodion**

**20.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau, ac eithrio mewn achosion lle mae rheoliad 39(5) yn gymwys, fod—

(a) cofnod meddygol cynhwysfawr yn cael ei gadw mewn perthynas â phob claf, a'i fod yn cynnwys—

(i) nodyn cyfoes o bob triniaeth sy'n cael ei darparu i'r claf;

(ii) hanes meddygol y claf a phob nodyn arall sy'n cael ei baratoi gan broffesiynolyn gofal iechyd ynghylch achos y claf; a

(b) bod y cofnod yn cael ei gadw am gyfnod nad yw'n llai na'r hyn a bennir yn Rhan I o Atodlen 3 mewn perthynas â'r math o glaf sydd o dan sylw neu, os gallai un neu fwy o gyfnodau o'r fath fod yn gymwys, yr hwyaf ohonynt.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

(a) bod cofnodion meddygol person sydd ar hyn o bryd yn glaf yn cael eu cadw mewn lle diogel yn y sefydliad; a

(b) bod cofnodion meddygol person nad yw ar y pryd yn glaf yn cael eu storio'n ddiogel (boed yn y sefydliad neu mewn man arall) a bod modd dod o hyd iddynt pe bai angen.

(3) Yn ogystal â'r cofnodion meddygol a gedwir yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r person cofrestredig sicrhau fod y cofnodion a bennir yn Rhan II o Atodlen 3 yn cael eu cadw a'u bod—

(a) yn cael eu diweddaru;

(b) ar gael i'w harchwilio bob amser yn y sefydliad gan unrhyw berson a awdurdodir gan y Cynulliad Cenedlaethol i fynd i'r sefydliad a'u harchwilio; ac

(c) yn cael eu cadw am gyfnod heb fod yn llai na thair blynedd gan ddechrau â dyddiad y cofnod diwethaf.

(4) Os bydd sefydliad yn cau, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â pharagraffau (1) a (3) yn cael eu cadw'n ddiogel mewn man arall a rhaid iddo drefnu iddynt fod ar gael i'w harchwilio gan y Cynulliad Cenedlaethol os bydd yn gofyn amdanynt.

### Barn y staff ynglŷn â'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg

**21.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg i'r graddau ag y gall effeithio ar iechyd neu les y cleifion.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau i alluogi unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad ac unrhyw ymarferydd meddygol gyda breintiau ymarfer i hysbysu'r person cofrestredig a'r Cynulliad Cenedlaethol o'u barn ar unrhyw fater y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo.

### Cwynion

**22.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sefydlu gweithdrefn (y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "y weithdrefn gwyno") ar gyfer ystyried cwynion a wneir i'r person cofrestredig gan glaf neu berson sy'n gweithredu ar ran claf.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod unrhyw gwyn a wneir o dan y weithdrefn gwyno yn cael ei hymchwilio'n llawn.

(3) Os gofynnir amdano, rhaid i'r person cofrestredig ddarparu copi ysgrifenedig o'r weithdrefn gwyno—

(a) i bob claf;

(b) i unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran claf; ac

(c) i unrhyw berson sy'n ystyried dod yn glaf.

(4) Rhaid i'r copi ysgrifenedig o'r weithdrefn gwyno gynnwys—

(a) enw, cyfeiriad a rhif ffôn swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol; a

(b) y weithdrefn (os oes un) y mae'r Cynulliad wedi hysbysu'r person cofrestredig ohoni ar gyfer cwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r sefydliad.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig gadw cofnod o bob cwyn, gan gynnwys manylion yr ymchwiladau a wnaed, y canlyniad ac unrhyw gamau a gymerwyd yn sgil hynny, a bydd gofynion rheoliad 20(3)(b) ac (c) yn gymwys i'r cofnod hwnnw.

(6) Rhaid i'r person cofrestredig ddarparu i'r Cynulliad Cenedlaethol, os bydd yn gofyn amdanynt, gopïau o'r cofnodion sy'n cael eu cadw o dan baragraff (5).

### Ymchwil

**23.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

(a) cyn bod unrhyw ymchwil sy'n ymwneud â chleifion, gwybodaeth am gleifion, neu feinweoedd dynol, yn cael ei gwneud mewn sefydliad neu at ddibenion sefydliad, bod cynnig ymchwil yn cael ei baratoi a bod cymeradwyaeth y Pwyllgor Moeseg Ymchwil priodol yn cael ei sicrhau; a

(b) bod pob prosiect ymchwil o'r fath yn cynnwys camau digonol i ddiogelu cleifion a chyflogeion.

(2) At ddibenion paragraff (1)(a), ystyr "y Pwyllgor Moeseg Ymchwil priodol" yw pwyllgor moeseg ymchwil sydd wedi'i sefydlu yn unol â chanllawiau sy'n cael eu rhoi o bryd i'w gilydd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

PENNOD 2

SAFLEOEDD

### Ffitrwydd y safle

**24.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig beidio â defnyddio safle fel sefydliad oni bai bod y safle hwnnw mewn lleoliad, a'i fod o ddyluniad a chynllun ffisegol, sy'n addas at ddibenion cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

(a) bod y safle o adeiladwaith cadarn ac yn cael ei gadw mewn cyflwr da y tu allan a'r tu mewn;

(b) bod maint a chynllun yr ystafelloedd yn addas at y dibenion y maent i'w defnyddio ar eu cyfer a'u bod wedi'u cyfarparu a'u dodrefnu'n addas;

(c) bod pob rhan o'r sefydliad yn cael ei gadw'n lân ac yn bodloni safonau hylendid priodol;

(ch) bod pob rhan o'r sefydliad y gall y cleifion fynd atynt yn rhydd rhag peryglon i'w diogelwch i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol; a

(d) os ymgymerir â gweithdrefnau llawfeddygol, os yw systemau cynnal bywyd yn cael eu defnyddio, neu os yw gwasanaethau obstetrig a gwasanaethau meddygol, mewn perthynas â geni plant, yn cael eu darparu yn y sefydliad, bod y cyflenwad trydan y mae ei angen i ddiogelu bywydau'r cleifion.yn cael ei ddarparu pan fydd y cyflenwad cyhoeddus yn cael ei dorri.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig ddarparu'r canlynol ar gyfer y cyflogeion ac ymarferwyr meddygol gyda breintiau ymarfer—

(a) cyfleusterau a llety addas, ac eithrio lle cysgu, gan gynnwys—

(i) cyfleusterau ar gyfer newid; a

(ii) cyfleusterau storio; a

(b) pan fydd angen llety o'r fath ar gyflogeion mewn cysylltiad â'u gwaith, lle cysgu.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig—

(a) cymryd rhagofalon digonol yn erbyn y risg o dân, gan gynnwys darparu a chynnal a chadw cyfarpar digonol i atal a darganfod tân;

(b) darparu dulliau boddhaol ar gyfer dianc os bydd tân;

(c) gwneud trefniadau ar gyfer personau a gyflogir yn y sefydliad ac ymarferwyr meddygol y rhoddwyd breintiau ymarfer iddynt i gael hyfforddiant addas mewn atal tân;

(ch) sicrhau, trwy gyfrwng driliau ac ymarferion tân a gynhelir bob hyn a hyn fel y bo'n addas, fod y sawl a gyflogir yn y sefydliad ac, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, fod y cleifion a'r ymarferwyr meddygol y rhoddwyd breintiau ymarfer iddynt, yn ymwybodol o'r weithdrefn sydd i'w dilyn pan fydd tân;

(d) adolygu'r rhagofalon tân, addasrwydd y cyfarpar tân a'r weithdrefn sydd i'w dilyn pan fydd tân, bob hyn a hyn heb fod cyfnod o fwy na deuddeg mis rhwng pob adolygiad; a

(dd) ymgynghori â'r awdurdod tân am y materion a ddisgrifir yn is-bargraffau (a) i (d).

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr “awdurdod tân”, mewn perthynas â sefydliad, yw'r awdurdod sy'n cyflawni, yn yr ardal lle mae'r sefydliad wedi'i leoli, swyddogaeth awdurdod tân o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**2**).

## PENNOD 3

## RHEOLAETH

### Ymweliadau gan y darparydd cofrestredig

**25.**—(1) Os yw'r darparydd cofrestredig yn unigolyn, nad yw'n rheoli'r sefydliad, rhaid i'r unigolyn hwnnw ymweld â'r sefydliad yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Os yw'r darparydd cofrestredig yn gorff, rhaid i un o'r personau canlynol ymweld â'r sefydliad yn unol â'r rheoliad hwn—

(a) yr unigolyn cyfrifol;

(b) un arall o'r cyfarwyddwyr neu'r personau eraill sy'n gyfrifol am reoli'r corff ac sy'n addas i ymweld â'r sefydliad; neu

(c) un o gyflogeion y corff a chanddo gymwysterau, medrau a phrofiad priodol at y diben hwnnw ac nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rhedeg y sefydliad.

(3) Rhaid i ymweliadau o dan baragraff (1) neu (2) gael eu cynnal o leiaf unwaith bob tri mis a gallant fod yn ddirybudd.

(4) Rhaid i'r person a fydd yn ymweld—

(a) cyfweld, gyda'u cydsyniad ac yn breifat (dros y ffôn, os yw hynny'n angenrheidiol), unrhyw gleifion a'u cynrychiolwyr ac unrhyw gyflogeion sydd yn ôl pob golwg yn angenrheidiol er mwyn ffurfio barn ar safon y driniaeth a'r gwasanaethau eraill sy'n cael eu darparu yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad;

(b) archwilio'r safle a chofnodion am unrhyw gwynion; ac

(c) paratoi adroddiad ysgrifenedig ar y modd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg.

(5) Rhaid i'r darparydd cofrestredig ddarparu copi o'r adroddiad y mae'n ofynnol ei wneud o dan baragraff (4)(c) i—

(a) y Cynulliad Cenedlaethol;

(b) y rheolwr cofrestredig; ac

(c) yn achos ymweliad o dan baragraff (2), i bob un o'r cyfarwyddwr neu'r personau eraill sy'n gyfrifol am reoli'r corff.

### Sefyllfa ariannol

**26.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig redeg y cartref plant mewn modd sy'n debyg o sicrhau y bydd y sefydliad yn hyfyw yn ariannol er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn ei ddatganiad o ddiben.

(2) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn amdani, rhaid i'r person cofrestredig roi unrhyw wybodaeth a dogfennau ag y bydd ar y Cynulliad ei angen er mwyn ystyried hyfywedd ariannol y sefydliad, gan gynnwys—

(**2**) 1947 p.41.

(a) cyfrifon blynyddol y sefydliad, wedi'u hardystio gan gyfrifydd; neu

(b) cyfrifon blynyddol y corff sy'n ddarparydd cofrestredig y sefydliad, wedi'u hardystio gan gyfrifydd, ynghyd â chyfrifon sy'n ymwneud â'r sefydliad ei hun.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig hefyd ddarparu unrhyw wybodaeth arall i'r Cynulliad Cenedlaethol ag y bydd ar y Cynulliad ei hangen er mwyn ystyried hyfywedd ariannol y sefydliad, gan gynnwys—

(a) tystlythyr gan fanc yn mynegi barn ynghylch statws ariannol y darparydd cofrestredig;

(b) gwybodaeth am sut mae'r sefydliad yn cael ei ariannu ac am ei adnoddau ariannol;

(c) os cwmni yw'r darparydd cofrestredig, gwybodaeth am unrhyw un o'i gwmnïau cysylltiedig; ac

(ch) tystysgrif yswiriant ar gyfer y darparydd cofrestredig mewn perthynas â'r atebolrwydd y gall y darparydd ei beri mewn perthynas â'r sefydliad ar gyfer marwolaeth, anaf, atebolrwydd cyhoeddus, difrod neu golled arall.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae un cwmni yn gysylltiedig ag un arall os yw un ohonynt yn rheoli'r llall, neu fod y ddau o dan reolaeth yr un person.

## PENNOD 4

## HYSBYSU'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL

### Hysbysu am ddigwyddiadau

**27.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig hysbysu'r Cynulliad—

(a) am farwolaeth claf—

(i) mewn sefydliad;

(ii) yn ystod triniaeth a ddarparwyd mewn sefydliad neu at ddibenion sefydliad; neu

(iii) o ganlyniad i driniaeth a ddarparwyd mewn sefydliad neu at ddibenion sefydliad, o fewn y cyfnod o saith niwrnod sy'n gorffen ar ddyddiad y farwolaeth,

ac am amgylchiadau marwolaeth y claf;

(b) am unrhyw anaf difrifol i glaf;

(c) am frigiad unrhyw glefyd heintus mewn sefydliad a hwnnw'n frigiad sydd ym marn unrhyw ymarferydd meddygol sy'n cael ei gyflogi yn y sefydliad yn ddigon difrifol i gael ei hybysu fel y cyfryw;

(ch) unrhyw honiad o gamymddwyn sy'n arwain at niwed gwirioneddol neu bosibl i glaf gan y person cofrestredig, unrhyw berson a gyflogir yn y sefydliad neu at ddibenion y sefydliad, neu unrhyw ymarferydd meddygol â breintiau ymarfer.

(2) Rhaid rhoi hysbysiad o dan baragraff (1) o fewn y cyfnod o 24 awr sy'n dechrau gyda'r digwyddiad o dan sylw ac, os rhoddir hysbysiad ar lafar, rhaid ei gadarnhau yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

### Hysbysu am absenoldeb

**28.**—(1) Os yw—

(a) darparydd cofrestredig y mae hysbysiad mewn perthynas ag ef wedi'i roi o dan reoliad 10(3); neu

(b) rheolwr cofrestredig,

yn bwriadu bod yn absennol o'r sefydliad am gyfnod parhaus o 28 diwrnod neu ragor, rhaid i'r person cofrestredig hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig am yr absenoldeb.

(2) Ac eithrio yn achos argyfwng, rhaid i'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gael ei roi heb fod yn hwyrach nag un mis cyn i'r absenoldeb arfaethedig gychwyn, neu o fewn unrhyw gyfnod byrrach y cytunir arno gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno arno a rhaid i'r hysbysiad bennu mewn perthynas â'r absenoldeb—

(a) pa mor hir fydd yr absenoldeb arfaethedig neu pa mor hir y disgwylir iddo fod;

(b) y rheswm drosto;

(c) y trefniadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer rhedeg y sefydliad;

(ch) enw, cyfeiriad a chymwysterau'r person a fydd yn gyfrifol am y sefydliad yn ystod yr absenoldeb hwnnw; a

(d) y trefniadau sydd wedi'u gwneud neu y bwriedir eu gwneud ar gyfer penodi person arall i reoli'r sefydliad yn ystod yr absenoldeb, gan gynnwys erbyn pa ddyddiad arfaethedig y mae'r penodiad i'w wneud.

(3) Os yw'r absenoldeb yn codi o ganlyniad i argyfwng, rhaid i'r darparydd cofrestredig roi hysbysiad o'r absenoldeb o fewn un wythnos wedi i'r argyfwng ddigwydd, gan bennu'r materion sydd wedi'u nodi yn is-baragraffau (a) i (d) o baragraff (2).

(4) Os yw—

(a) darparydd cofrestredig y mae hysbysiad wedi'i roi mewn perthynas ag ef o dan reoliad 10(3); neu

(b) rheolwr cofrestredig;

wedi bod yn absennol o'r sefydliad am gyfnod parhaus o 28 diwrnod neu ragor, ac na roddwyd hybysiad i swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol o'r absenoldeb rhaid i'r person cofrestredig roi hysbysiad ysgrifenedig yn ddi-oed i'r swyddfa honno yn pennu'r materion a grybwyllir yn is-baragraffau (a) i (d) o baragraff (2).

(5) Rhaid i'r person cofrestredig hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol fod person a grybwyllir yn is-baragraffau (a) neu (b) o baragraff (4) wedi dychwelyd i'r gwaith a hynny heb fod yn hwyrach na saith diwrnod ar ôl i'r person hwnnw ddychwelyd.

**Hysbysu am newidiadau**

**29.** Rhaid i'r person cofrestredig hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol i wneud hynny os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd neu y bwriedir iddynt ddigwydd—

(a) bod person heblaw'r person cofrestredig yn rhedeg neu'n rheoli'r sefydliad;

(b) bod person yn peidio â gweithredu neu reoli'r sefydliad;

(c)

(ch) os unigolyn yw'r darparydd cofrestredig bod yr unigolyn hwnnw yn newid ei enw;

(d) os corff yw'r darparydd cofrestredig—

(i) bod enw a chyfeiriad y corff yn cael ei newid;

(ii) bod unrhyw newid cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall i'r corff;

(dd) bod unrhyw newid o ran pwy yw'r unigolyn cyfrifol;

(e) os unigolyn yw'r darparydd cofrestredig, bod ymddiriedolwr mewn methdaliad yn cael, neu'n debygol o gael, ei benodi, neu fod cyfamod neu drefniant yn cael ei wneud gyda chredydwyr;

(f) os cwmni yw'r darparydd cofrestredig, bod derbynnydd, rheolwr, datodwr neu ddatodwr dros dro yn cael ei benodi;

(ff) bod safle'r sefydliad yn cael ei newid neu ei estyn yn sylweddol, neu fod safle ychwanegol yn cael ei sicrhau.

**Penodi datodwyr etc.**

**30.**—(1) Rhaid i unrhyw berson y mae paragraff (2) yn gymwys iddo—

(a) hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith o benodiad y person, gan nodi'r rhesymau dros ei benodi;

(b) penodi rheolwr i gymryd gofal amser-llawn o ddydd i ddydd o'r sefydliad mewn unrhyw achos lle nad yw'r ddyletswydd o dan reoliad 10(1) yn cael ei bodloni; ac

(c) cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar ddyddiad penodi'r person hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol o fwriadau'r person ynghylch y ffordd y bydd y sefydliad y mae'r penodiad yn ymwneud ag ef yn cael ei weithredu yn y dyfodol.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i bob person a benodwyd—

(a) yn dderbynnydd neu'n rheolwr eiddo cwmni neu bartneriaeth sy'n ddarparydd cofrestredig sefydliad;

(b) yn ddatodwr neu'n ddatodwr dros dro cwmni sy'n ddarparydd cofrestredig sefydliad;

(c) yn dderbynnydd neu'n rheolwr eiddo partneriaeth y mae ei busnes yn cynnwys rhedeg sefydliad; neu

(ch) yn ymddiriedolwr mewn methdaliad i ddarparydd cofrestredig sefydliad.

**Marwolaeth person cofrestredig**

**31.**—(1) Os oes mwy nag un person wedi'i gofrestru mewn perthynas â sefydliad, a bod person cofrestredig yn marw, rhaid i'r person cofrestredig sy'n dal yn fyw hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig o'r farwolaeth yn ddi-oed.

(2) Os nad oes ond un person wedi'i gofrestru mewn perthynas â sefydliad, a bod y person yn marw, rhaid i gynrychiolwyr personol y person hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig—

(a) o'r farwolaeth yn ddi-oed; a

(b) o fewn 28 diwrnod o'u bwriadau ynghylch rhedeg y sefydliad yn y dyfodol.

(3) Caiff cynrychiolwyr personol darparydd cofrestredig marw redeg y sefydliad heb fod wedi'u cofrestru mewn perthynas ag ef—

(a) am gyfnod heb fod yn hwy nag 28 diwrnod; a

(b) am unrhyw gyfnod pellach a benderfynir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â pharagraff (4).

(4) Gall y Cynulliad Cenedlaethol estyn y cyfnod a bennir ym mharagraff (3)(a) ag unrhyw gyfnod pellach, heb fod yn fwy na blwyddyn, y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn dyfarnu, a rhaid iddo hysbysu unrhyw ddyfarniad o'r fath yn ysgrifenedig i'r cynrychiolwyr personol.

(5) Rhaid i'r cynrychiolwyr personol benodi person i ysgwyddo'r cyfrifoldeb amser-llawn dros y sefydliad o ddydd i ddydd yn ystod unrhyw gyfnod pan fyddant yn rhedeg y sefydliad, yn unol â pharagraff (3), heb fod wedi'u cofrestru ar ei gyfer.